# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 MAI, 2022

## Yn NEUADD BENTREF FFOSTRASOL, FFOSTRASOL am 7.30 p.m.

| **Yn bresennol** | | |
|---|---|---|
| | Cyng. Emyr Jones (cadeirydd) | Cyng. Roger Davies |
| | Cyng. Ceri Jones | Cyng. Siân Williams |
| | Cyng. Sharon Thomas | Cyng. Maldwyn Lewis |

**Ymddiheuriadau** Cyng. Teifi Evans, Cyng. Mark Davies a Chyng. Rob Jones.

**Clerc** Margaret Jones

| **Eitem ar yr Agenda** | | **Gweithredu** | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Teifi Evans, Mark Davies a Rob Jones. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. | | |
| 3 | Cofnodion cyfarfod mis Ebrill. | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Ebrill. | | |
| 4. | Materion yn Codi | I'w hadrodd unwaith eto ar CLIC –<br>SA44 5LH – arwydd gwartheg yn croesi ar goll ym Mhenrhiwpâl ger mynedfa Nantgwylan.<br><br>Dosbarthwyd diffibrilwyr i Gyng. Maldwyn Lewis ac roedd y Cadeirydd, Cyng. Emyr Jones a Chyng. Maldwyn Lewis wedi gosod un ym Mhenrhiwpâl (ger y blwch postio) a'r llall ar wal Festri Capel Bwlch-y-groes. Hysbyswyd pawb yn y cyfarfod gan Gyng. Lewis o'r ffaith nad oes angen newid padiau ar y diffibrilwyr newydd (oedolion/plant) gan bod switsh ar y diffibriliwr nawr, y gallwch ei newid ar gyfer y broses gywir. Bydd angen ychwanegu'r diffibrilwyr newydd hyn i restr The Circuit a bydd angen chwilio am Warcheidwad ar gyfer pob un ohonynt. Roedd Cyng. Lewis wedi dosbarthu taflenni i breswylwyr ym Mhenrhiwpâl i'w hysbysu o'r Diffibriliwr newydd ac roedd Llain Manal, Penrhiwpâl wedi cynnig ystafell er mwyn cynnal hyfforddiant yn y dyfodol.<br><br>O ran y blwch diffibriliwr sbâr, trafodwyd y mater a phenderfynwyd disodli un o'r blychau henach yn y gymuned, yr un yn Ffostrasol o bosibl gan nad yw'n ddwrglos. O ran y diffibriliwr sydd ar gael fel y bo'r angen, y cytunwyd yn flaenorol y byddai modd i ddigwyddiadau cymunedol ei fenthyca (fel sioeau hen beiriannau, carnifalau, gornestau aredig ac ati) – bydd y Clerc yn cadw'r diffibriliwr a chaiff tabl ei greu yn barod ar gyfer benthyca'r diffibriliwr ar gyfer y digwyddiadau y cyfeiriwyd atynt uchod. | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cynghorydd – bydd y Clerc yn ceisio cyngor am y weithdrefn gywir er mwyn hysbysu'r gymuned leol bod lle ar gael am Gynghorydd newydd. |
| 5. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Ceri Jones bod cofnodion cyfarfod mis Ebrill yn gywir, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Siân Williams. |
| 6. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Estynnodd Cyng. Maldwyn Lewis longyfarchiadau i'r holl Gynghorwyr am gael eu hail-ethol a diolchodd i bawb am gydweithio mor dda. Hysbysodd bawb hefyd bod ffiniau'r cyngor wedi cael eu diwygio, felly mae ardal Cyngor Cymuned Troedyraur yn fwy o faint nawr, ac mae'n ymestyn o Frongest i Bontsiân. Oherwydd y newidiadau i'r ffiniau, nododd y posibilrwydd o weithio gyda Llandysul yn y dyfodol hefyd.<br><br>O ran system adrodd CLIC – diweddarwyd hon a bydd yn gallu cynnig system olrhain i'r cyhoedd nawr am faterion yr adroddwyd amdanynt.<br><br>Paratowyd Cynllun Busnes yn y Sir ac os oes gan unrhyw un unrhyw syniadau/awgrymiadau, dylid eu cyfleu i Gyng. Maldwyn Lewis.<br><br>Hysbysodd Cyng. Lewis y cyfarfod hefyd y bu hi'n anodd cael enwau Cynghorwyr Lleol a Sir yn ystod yr Etholiad a gynhaliwyd yn ddiweddar.<br><br>Canmolwyd Ceredigion am ei harweinyddiaeth yn ystod y pandemig a'i rôl gyda lles iechyd meddwl gan Lywodraeth Cymru, Caerdydd.<br><br>Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng. Lewis hefyd bod dewis gweithio Hybrid yn ei le yn y siambr yn Aberaeron.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i Gyng. Lewis am ei adroddiad ac estynnodd longyfarchiadau iddo hefyd am gael ei ailethol yn Gynghorydd Sir a chymeradwywyd hyn gan bawb a oedd yn bresennol. |
| 7. | Gohebiaeth | Cafwyd llythyr gan C.Ff.I. Ceredigion yn gofyn am gymorth ariannol – caiff hwn ei gynnwys mewn ffeil yn barod ar gyfer mis Ionawr 2023, pan drafodir ceisiadau am grantiau.<br><br>Llythyr gan Neuadd Ffostrasol yn cyflwyno anfoneb heb ei thalu eto am logi'r neuadd ar gyfer cyfarfodydd yn ystod 2019 a 2020. Roedd y clerc wedi edrych ac nid oedd hon wedi cael ei thalu – y swm i'w dalu am 4 cyfarfod oedd £45. Telir y swm.<br><br>Cafwyd llythyr o ddiolch gan Eglwys St. Michael, Troedyraur am y grant a gawsant ym mis Mawrth 2022.<br><br>Roedd clwb pêl-droed Ffostrasol wedi anfon anfoneb ymlaen am y cabinet i'r Diffibriliwr yr oeddent wedi'i brynu, a oedd yn nodi'r swm o £588 i'w ad-dalu i glwb pêl-droed Ffostrasol.<br><br>Anfonwyd neges e-bost ymlaen at Gyng. Sharon Thomas gan breswylydd lleol sydd â busnes gosod bythynnod gwyliau, yn lleisio eu pryder ynghylch 'Newidiadau i drothwyon Llety Gwyliau gan Lywodraeth Cymru'. Trafodwyd yr ohebiaeth a'r pryderon, ond yn anffodus, nid oes modd gwneud unrhyw beth ar lefel leol. |

| | |
|---|---|
| | Roedd Ashmole & Co., Cyfrifwyr Siartredig, wedi anfon copïau ymlaen o'r ffurflenni P60 a P45 yr oedd gofyn eu cael er mwyn cwblhau'r gwaith sy'n weddill ar gyfer Archwilio Cymru. |
| 8. Cynllunio | Maes yr Ysgol, Coed-y-bryn – A220247 – Ymgynghoriad Cynllunio. Cafwyd trafodaeth hir am y mater hwn a nodwyd y gallai lleoliad y gwaith achosi pryderon ynghylch sŵn a llygredd ar gyfer y pentref. Hefyd, gan ddibynnu ar y busnes a fyddai'n cael ei redeg o'r eiddo, a'r cynnydd yn lefel y traffig, gallai diogelwch fod yn destun pryder gan nad oes llwybr rhwng neuadd y pentref a'r eiddo. Lleihad o ran cyfleoedd cyflogaeth o ganlyniad i ostyngiad yn y lle gwaith. |
| 9.Asesiad Risg | Caiff hwn ei gynnwys ar Agenda cyfarfod mis Mehefin. Bydd y clerc chwilio am dempled ar Borth Un Llais Cymru. **Clerc** |
| 10. Diweddariad am y Cyfansoddiad | Roedd y Clerc wedi anfon copi o'r Cyfansoddiad ymlaen mewn neges e-bost at yr holl Gynghorwyr. Trafodwyd y Cyfansoddiad a chaiff y mater hwn ei gynnwys ar Agenda cyfarfod mis Mehefin. Un ffactor y mae angen ei ddiwygio yw'r ffactor ariannol – h.y., gan ddibynnu ar y cais gan yr ymgeisydd, byddai modd dyfarnu grantiau pe bai gofyn cael arian erbyn dyddiad penodol na fyddai'n cyd-fynd gyda'r dyddiadau arferol pan ddyfarnir grantiau (h.y. Ionawr/Chwefror) bob blwyddyn. |
| 11. Ariannol | **Ymchwiliad Archwilio** – Mae'r holl lyfrau sieciau wedi cael eu dychwelyd o swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y Clerc wedi paratoi taenlenni a chofnodion ariannol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2017-18; 2018-19; 2019-20; 2020-21 a 2021-22 hefyd. Yn ogystal, roedd y Clerc wedi cysylltu â Banc NatWest gan bod rhai datganiadau ar goll a chafwyd y rhain hefyd. Bydd Cynghorwyr Sharon Thomas, Siân Williams, Mark Davies a Maldwyn Lewis yn trefnu cyfarfod cyn wythnos nesaf er mwyn cysoni'r taenlenni a'r cofnodion ariannol cyn symud ymlaen i lenwi ffurflenni archwilio y mae gofyn eu llenwi.<br><br>**Llofnodwyr NatWest** – Nid oedd y Clerc wedi cael unrhyw ohebiaeth gan y banc. Gan nad oedd Cyng. Rob Jones yn y cyfarfod, cynigiodd Cyng. Sharon Thomas siarad gyda Chyng. Jones ynghylch y diweddariad amdano yn mynd i'r banc gyda'r manylion adnabod perthnasol.<br><br>**Taliadau** CThEM - £43.40 (PAYE)<br>Cyflog y Clerc - £173.80<br>Neuadd Ffostrasol - £45.00<br>Ashmole & Co., - £78<br>Yswiriant BHIB - £909.94<br>Clwb Pêl-droed Ffostrasol - £588.00<br><br>Llofnododd Cynghorwyr Maldwyn Lewis a Roger Davies y sieciau uchod yn ystod y cyfarfod.<br><br>Bydd y Clerc yn trefnu llythyr i drosglwyddo £3,000 o'r cyfrif Busnes Wrth Gefn i'r cyfrif Cyfredol, ac unwaith eto, bydd gofyn i Gynghorwyr Maldwyn Lewis a Roger Davies lofnodi'r llythyr hwn cyn gynted ag y bo modd. **Clerc** |

| | | |
|---|---|---|
| 12. | Materion Ardal | Dosbarthodd Cyng. Siân Williams daflen yn gwahodd pobl i Noson Agored yn Neuadd Coed-y-bryn er mwyn lansio Prosiect Ffrwyth y Coed ar nos Wener, 20 Mai 2022 am 6.00 p.m.<br><br>**Cynghorydd Newydd** – caiff y mater hwn ei osod ar Agenda cyfarfod mis Mehefin.<br><br>Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng. Sharon Thomas o lwyddiant clwb pêl-droed Ffostrasol mewn cystadlaethau yn ddiweddar, a hefyd clybiau hoci Castellnewydd Emlyn a Llandysul, a hefyd, y ffaith bod tîm Rygbi Menywod wedi cael ei lansio o'r newydd yng Nghastellnewydd Emlyn. |
| 13. | Unrhyw fater Arall | Mynegodd y Cadeirydd a'r holl Gynghorwyr eu cydymdeimlad gyda theulu y diweddar Gynghorydd E.J. Jones Panteg Croes-lan. Roedd pawb wedi sefyll ar eu traed am funud o dawelwch fel arwydd o barch. Cadarnhaodd y Clerc bod carden cydymdeimlo wedi cael ei hanfon i'r teulu cyn y cyfarfod hwn heno. |
| 14. | Y Cyfarfod Nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 7 Mehefin am 7.30 p.m. yn Neuadd Bentref Coed-y-bryn.<br><br>Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 10.30 p.m. |
| 15. | Eitemau ar gyfer yr Agenda Nesaf | Ymddiheuriadau<br>Datgelu Buddiannau<br>Cofnodion y Cyfarfod diwethaf<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Asesiad Risg<br>Diweddariad am y Cyfansoddiad<br>Adolygu Gwarcheidwadaeth a diweddaru rhestr y Diffibrilwyr<br>Cyllid – Archwiliad/Ffurflenni Blynyddol<br>Diweddariad am y Gorchymyn/Llofnodwyr<br>Taliadau<br>Materion Ardal<br>Cyfryngau Cymdeithasol<br>Hybrid – gwaith/cyfarfodydd<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |
| 16. | Cyfarfod Nesaf | **NOS FAWRTH, 7 MEHEFIN, 2022** am **7.30 p.m.** yn Neuadd Bentref Coed-y-bryn |